Polisi Iaith Gwynedd

Amcanion Cyffredinol

Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd ac hefyd yn datblygu polisi dwyieithog ar gyfer sefydliadau Addysg Bellach.

Yr amcan yw datblygu gallu disgyblion a myfyrwyr y sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

Dylai holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu'r polisi iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth academaidd.

Amcanion Penodol

Addysg Feithrin
Sicrhau, trwy ddarpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol a sensitif, y rhoddir i bob plentyn sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn maes o law.

Cyfnod Sylfaen
Adeiladu ar y sylfeini a osodwyd i'r Gymraeg drwy addysg feithrin. cadarnhau a datblygu mamiaith y plentyn o ddysgwyr Cymraeg ac ymestyn gafael y plentyn o gartref Cymraeg ar y Saesneg.

Cyfnod Allweddol 2
Cadarnhau datblygu Cymraeg a Saesneg pob plentyn yn eu holl agweddau goddefol a gweithredol, er mwyn sicrhau ei fod yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'n rhwydd ac yn hyderus yn y ddwy iaith pan fo'n trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. (Gwneir darpariaeth arbennig ar gyfer hwyr-ddyfodiaid iau).

Bydd y Pennaeth, mewn ymgynghoriad â'r staff, yn paratoi ac adolygu'n rheolaidd ddogfen sy'n datgan sut mae'r ysgol yn bwriadu gweithredu polisi iaith yr Awdurdod Addysg a amlinellir uchod.